sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

# Datganiad ar Gais i newid fformat gan Nation Radio (De Cymru)

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mawrth 2017

# About this document

Mae Ofcom wedi cymeradwyo cais gan berchennog Nation Radio Limited i newid Fformat Nation Radio, gwasanaeth radio masnachol FM rhanbarthol sy'n darlledu i Dde Cymru.

Dyma'r 'Cymeriad Gwasanaeth' blaenorol yn Fformat Nation Radio (sy'n rhan o'i drwydded darlledu):

GORSAF GERDDORIAETH SY’N CHWARAE MWYAFRIF O GANEUON ROC A CHANEUON Â GOGWYDD ROC, AC YN CYNNWYS SYLW I ARTISTIAID LLEOL.

Yn dilyn cymeradwyo'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt, dyma fydd y 'Cymeriad Gwasanaeth' o hyn ymlaen:

GORSAF GERDDORIAETH I GYMRU SY’N CYNNWYS SYLW I ARTISTIAID LLEOL.

Mae Ofcom hefyd wedi cymeradwyo cais Nation Radio i gynyddu nifer yr oriau a wneir yn lleol a fydd yn ofynnol dan Fformat yr orsaf o 10 awr o leiaf yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac o leiaf 4 awr ar ddydd Sadwrn a dydd Sul) i o leiaf 21 awr y dydd, bob dydd.

# Contents


| Section | | Page |
|---|---|---|
| 1 | Meini prawf polisi a statudol | 1 |
| 2 | Penderfyniad Ofcom | 3 |

Section 1

# Meini prawf polisi a statudol

Caiff Ofcom roi caniatâd i wyro oddi wrth gymeriad y gwasanaeth trwyddedig ("newid Fformat") yn unol ag adran 106 (1A) Deddf Darlledu 1990 ond dim ond os yw'n fodlon mewn perthynas ag o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

(a) ni fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;

(b) ni fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;

(c) byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol;

(d) mae tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r gwyriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo; neu

(e) byddai (i) y gwyriad yn digwydd wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy (fel y diffiniwyd yn adran 314 Deddf Cyfathrebiadau 2003 (cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau)).

O dan adran 106ZA Deddf Darlledu 1990, mae'n rhaid ymgynghori ynghylch newid nad yw'n cael ei ystyried gan Ofcom fel un sy'n bodloni'r cyntaf neu'r olaf o'r meini prawf hyn (h.y. newid y mae Ofcom o'r farn y byddai neu y gallai newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol, neu nad yw'n berthnasol i darddiad rhaglenni lleol yn unig), os ydyw i'w ystyried ymhellach o dan unrhyw un o'r tri maen prawf arall.

Yn ein barn ni, mae'r newidiadau a gynigir gan y Trwyddedai yn cynrychioli newid y gellir ei ystyried yn sylweddol i allbwn gwasanaeth presennol Nation Radio. Mae hyn oherwydd na fyddai rhwymedigaeth ar yr orsaf i chwarae mwyafrif o ganeuon roc a chaneuon â gogwydd roc mwyach, gan olygu y gallai natur allbwn cerddoriaeth Nation Radio newid yn sylweddol iawn. Felly, yn unol â statud, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y newid arfaethedig, am bedair wythnos o 9 Rhagfyr 2016 ymlaen.

Cawsom 15 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd 13 o blaid y newidiadau, a 2 yn eu herbyn. Mae'n bosibl gweld yr ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol, ynghyd â'r ddogfen ymgynghori, yn: https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/nation-radio-request-to-change-format

Hyd yn oed os yw Ofcom yn fodlon y byddai'r newid arfaethedig yn bodloni un o'r meini prawf statudol, mae gan Ofcom ddisgresiwn o hyd i gytuno ar y newid neu beidio. Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch sut mae'n disgwyl ymarfer ei ddisgresiwn yn gyffredinol. Mae'r canllawiau yn cyfeirio'n arbennig at y meini prawf canlynol:

- Graddfa effaith y newid ar Gymeriad y Gwasanaeth
- Yr amser sydd wedi mynd heibio ers dyfarnu'r drwydded
- Yr hyn a ystyriwyd wrth ddyfarnu'r drwydded yn wreiddiol

- Safbwyntiau gwrandawyr a rhanddeiliaid
- Osgoi ‘ymlithro Fformat’
- P’un ai yw’r orsaf yn darlledu ar AM neu FM
- Lleolrwydd statudol Ofcom a rhwymedigaethau eraill.

Section 2

# Penderfyniad Ofcom

Yn dilyn yr ymgynghoriad, archwiliodd Ofcom y dogfennau Cais i Newid Fformat a gyflwynwyd gan Nation Radio, a'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn gyntaf aethom ati i ystyried a oeddem yn fodlon mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar maen prawf statudol a oedd yn weddill (h.y. adran 106(1A) (b), (c), (d) neu (e)).

Nodwyd gennym nad oedd maen prawf (e) yn berthnasol i'r cais hwn, gan nad yw'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â chydleoli na threfniadau rhannu rhaglenni.

Nid oeddem yn fodlon mewn perthynas ag adran 106(1A)(c), gan nad oedd tystiolaeth ddigonol ar gael (gan y Trwyddedai nac ymatebwyr yr ymgynghoriad) i'n galluogi ni i gytuno y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol.

Nid oeddem yn fodlon chwaith mewn perthynas ag adran 106(1A)(d), sef bod tystiolaeth bod cryn gefnogaeth i'r newid gan bobl sy'n byw yn yr ardal. Er y nodwyd bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yr ymgynghoriad – 13 allan o 15 – o blaid y newid, nifer bach iawn o ymatebwyr yw hynny yng nghyd-destun gorsaf sydd ag 874,000 o oedolion yn ei Dalgylch Mesuradwy, a ffigurau gwrando wythnosol o 152,000 o oedolion ar hyn o bryd[1]. Ni ddarparodd y Trwyddedai unrhyw dystiolaeth ymchwil y byddai'r "Orsaf Gerddoriaeth i Gymru" yn apelio'n fwy at gynulleidfaoedd na fformat roc presennol Nation Radio o reidrwydd.

Serch hynny, roeddem yn fodlon mewn perthynas ag adran 106(1A)(b) – h.y. na fyddai'r newid i'r Fformat yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol yn yr ardal.

Yn ein barn ni, er bod tynnu'r gofyniad i'r orsaf ganolbwyntio ar gerddoriaeth roc yn tynnu gofyniad penodol o'r drwydded hon, gwrthbwyswyd hyn ag ymrwymiad ffurfiol Nation i gynyddu nifer y rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol, sy'n ofynnol dan y drwydded, i 21 awr y dydd. Mae'r lefel hon o gynhyrchu lleol yn uwch o lawer na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd dan drwyddedau unrhyw rai o'r gorsafoedd radio masnachol lleol yn Ne Cymru.

Mae canllawiau lleolrwydd Ofcom yn nodi "dylai rhaglenni a wneir yn lleol gynnwys deunydd lleol ar draws yr isafswm oriau a nodir yn gyffredinol."[2] O dan yr amgylchiadau hyn, ystyriwyd bod yr ymrwymiad yn nhrwydded Nation Radio iddo ddarlledu deunydd lleol drwy gydol pob dydd (gan gynnwys y tu allan i gyfnodau brig), ynghyd â'r ffocws golygyddol ar Gymru y mae wedi'i addo, yn golygu, at ei gilydd, na chyfyngir ystod y rhaglenni sydd ar gael i wrandawyr yn Ne Cymru o ganlyniad i'r newid.

Ar ôl cael ein bodloni mewn perthynas ag un o'r meini prawf statudol perthnasol, aethom ati wedyn i ystyried y cais hwn o dan feini prawf polisi Ofcom.

Darperir gwasanaeth Nation Radio o dan drwydded De Cymru ar hyn o bryd. Dyfarnwyd y drwydded yn 2007 yn wreiddiol (i Xfm). Un o'r prif resymau dros ddyfarnu'r drwydded i Xfm yn wreiddiol oedd fod y ceisydd wedi nodi bod darpariaeth annigonol o gerddoriaeth roc ym marchnad radio masnachol De Cymru. Fodd bynnag, mae'r degawd diwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol yn argaeledd gwasanaethau cerddoriaeth roc arbenigol o ran y dewis

[1] Ffynhonnell: RAJAR Q4 2016.
[2] Ceir canllawiau lleolrwydd Ofcom yma https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/localness/localness-guidelines

sydd ar gael i wrandawyr drwy gyfrwng llwyfannau digidol. Oherwydd hynny, rydym o'r farn fod digon o amser wedi mynd heibio ers dyfarnu'r drwydded i awgrymu y dylai'r Trwyddedai gael yr hyblygrwydd i ymateb i newidiadau yn y farchnad, ac na ddylai'r hyn a ystyriwyd wrth ddyfarnu'r drwydded yn wreiddiol fod yn ffactor bwysig wrth i ni wneud ein penderfyniad.

O ran safbwyntiau gwrandawyr a rhanddeiliaid, fel y nodwyd uchod, 15 o ymatebion yn unig a gawsom i'r ymgynghoriad, gyda phob un ond dau o'r rheini o blaid y newid. Roedd y rheini a oedd o blaid yn croesawu cynigion y Trwyddedai ar y sail y byddai rhagor o ffocws ar Gymru a lleolrwydd yn gwneud Nation Radio yn wasanaeth mwy perthnasol i wrandawyr ac i hysbysebwyr.

Ystyriwyd gennym hefyd a ddylai 'ymlithro Fformat' fod yn ffactor berthnasol yn yr achos hwn, o ystyried nifer y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i Fformat y gwasanaeth hwn o'r blaen, ond daethom i'r casgliad na ddylai fod yn ffactor berthnasol, a hynny'n seiliedig ar y ffaith fod y newid hwn yn sylweddol ynddo'i hun, ac felly'n amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus.

I grynhoi felly, cytunodd Ofcom yn cytuno i'r cais hwn i newid Fformat oherwydd ei fod yn fodlon mewn perthynas ag un o'r meini prawf statudol perthnasol, ac am y rhesymau polisi a amlinellwyd uchod.